ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau mentora ar gyfer y Llwybr Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (LlDPC ADY)

OGL © Hawlfraint y Goron 2021
WG43237 ISBN digidol 978 1 80195 861 5

# Mentora ar gyfer y LlDPC ADY

**Dylid darllen y ddogfen ganllaw hon ar y cyd â'r bennod sy'n cyflwyno'r LlDPC ADY.**

Croeso!

Nod y ddogfen hon yw cynorthwyo unigolion y gofynnwyd iddynt fentora CADY neu ddarpar CADY drwy'r Llwybr Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer ADY (LlDPC ADY). Hefyd, y bwriad yw helpu CADY a darpar CADY i ddeall beth i'w ddisgwyl gan y broses fentora.

Erbyn diwedd y ddogfen hon, bydd mentoriaid a'r rhai sy'n cael eu mentora yn:

- deall y prif wahaniaethau rhwng hyfforddi a mentora
- deall y gofynion ar gyfer mentoriaid y LlDPC ADY
- deall dyletswyddau moesegol mentor a'r berthynas fentora.

## Hyfforddi a mentora

Fel mentor, mae'n bwysig deall y gwahaniaethau rhwng hyfforddi a mentora. Nid yw hyfforddi yn golygu rhoi cyfarwyddiadau, ac mae'n ymwneud â 'thynnu' yn hytrach na 'gwthio', gan ddefnyddio dulliau megis:

- gwrando
- cwestiynu
- myfyrio
- aralleirio
- crynhoi.

Mae mentora yn ymwneud â 'gwthio' yn hytrach na 'thynnu', gan ddefnyddio dulliau fel:

- gwneud awgrymiadau
- rhoi adborth
- cynnig arweiniad
- rhoi cyngor
- rhoi cyfarwyddyd

Bydd y broses o fentora CADY neu ddarpar CADY mewn ffordd effeithiol wrth gwblhau'r LlDPC ADY yn ei helpu i feithrin sgiliau i gefnogi eraill yn y lleoliad.

## Pwy all fod yn fentor ar gyfer y LlDPC ADY?

Nid yw'n hanfodol i fentoriaid y LlDPC ADY fod wedi cwblhau cwrs mentora, ond bydd yn fanteisiol os ydynt wedi gweithio fel hyfforddwr neu fentor ar y Rhaglen Genedlaethol Datblygu Arweinyddiaeth Ganol, y Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol ar gyfer Uwch Arweinwyr, y Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid Genedlaethol a/neu'r Rhaglen Hyfforddi a Mentora Genedlaethol.

Os oes modd, dylai'r mentor fod yn unigolyn o'r tu allan i gadwyn reoli'r CADY neu'r darpar CADY. Os nad yw hyn yn bosibl, mae'n bwysig nodi y dylid neilltuo amser ar gyfer y sesiynau mentora, yn hytrach na bod y sesiynau'n cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd rheoli llinell rheolaidd.

Yn gyffredinol, awgrymir y bydd y mentor yn aelod o uwch dîm arwain ysgol neu goleg sy'n gweithio yn yr un lleoliad â'r CADY neu'r darpar CADY. Mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft os yw'r CADY yn bennaeth ysgol neu'n bennaeth coleg, gellir ystyried y byddai'r berthynas fentora yn fwy effeithiol pe bai'r mentor a'r unigolyn sy'n cael ei fentora yn gweithio mewn lleoliadau gwahanol.

Efallai y gallai CADY ystyried sicrhau ei fod ar gael i fentora darpar CADY sy'n gweithio drwy'r dysgu. Mae nifer o CADYau eisoes wedi cymryd rhan yn y Rhaglen Hyfforddi a Mentora Genedlaethol, a bydd hynny wedi'u helpu i ddatblygu nifer o sgiliau a fydd yn eu cynorthwyo i gyflawni rôl fentora'r LlDPC ADY. Nid yw'n ofynnol i CADY gwblhau'r LlDPC ADY er mwyn cyflawni rôl fentora ar gyfer y rhaglen, ond byddai'n fanteisiol.

Os yw’r mentor LlDPC ADY yn newid ar gyfer unigolyn yn ystod y cyfnod dysgu, dylai'r unigolyn e-bostio Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

## Beth yw rôl mentor?

Yn gyffredinol, rôl mentor yw cefnogi ac arwain twf proffesiynol unigolyn. Gall mentor awgrymu heriau cefnogol a helpu i osod nodau, datblygu cysylltiadau, a nodi adnoddau.

Yng nghyd-destun y LlDPC ADY, mae'r rôl fentora yn canolbwyntio ar helpu CADY a darpar CADY i gael y gorau o’r rhaglen. Bydd mentoriaid yn cynorthwyo'r unigolion y maent yn eu mentora i fyfyrio ar gynnwys y dysgu a thrafod sut y gellir defnyddio'r deilliannau dysgu i wella eu hymarfer proffesiynol a’r ymarfer yn eu lleoliad.

Mae bod yn fentor i rywun (CADY neu ddarpar CADY) sy'n ymgymryd â'r LlDPC ADY yn golygu gwneud y canlynol.

### Cyfarfod trosolwg

Cyfarfod cychwynnol yw hwn rhyngoch chi a'r unigolyn rydych yn ei fentora. Bydd yn cynnwys sgwrs gyffredinol am y dysgu a'r berthynas fentora. Yn ystod y sesiwn hon, mae'n bosibl y byddwch chi a'r unigolyn rydych chi'n ei fentora eisiau siarad am yr hyn y mae am ei gyflawni yn ystod y broses ddysgu. Gall hyn gynnwys trafod sgiliau, gwybodaeth a phrofiad presennol yr unigolyn, a sut y gellir datblygu'r meysydd hyn drwy'r LlDPC ADY. Rhagwelir y bydd y cyfarfod hwn yn para tua awr.

**Paratoi ar gyfer trafodaethau llyfr gwaith**

Er mwyn paratoi ar gyfer y trafodaethau llyfr gwaith, dylech ddarllen pennod y dysgu sy'n cyfateb i'r llyfr gwaith rydych yn ei adolygu. Felly, er enghraifft, cyn adolygu 'Llyfr Gwaith 2' gyda'r unigolyn rydych yn ei fentora, byddech yn darllen 'Rhestr Chwarae/Pennod 2' y dysgu. Bydd y rhestrau chwarae yn darparu cyd-destun i chi ar gyfer y cwestiynau yn y llyfrau gwaith. Rhagwelir y bydd yn cymryd tua 20 i 30 munud i fentoriaid ymgyfarwyddo â phob rhestr chwarae.

Unwaith y bydd yr unigolyn rydych yn ei fentora yn rhoi gwybod i chi fod ei lyfr gwaith ar gyfer pennod yn barod i chi ei adolygu, gallwch ddarllen ei ymatebion i'r cwestiynau. Bydd gwneud hyn yn brydlon yn ddefnyddiol iawn. Rhagwelir y bydd yn cymryd tua 30 munud i fentoriaid ddarllen yr ymatebion ym mhob llyfr gwaith.

**Trafodaethau llyfr gwaith**

Ar ôl i chi adolygu'r ymatebion y mae'r unigolyn rydych yn ei fentora wedi'u darparu yn ei lyfr gwaith, gallwch chi neu'r unigolyn rydych yn ei fentora drefnu cyfarfod i'w trafod. Rhagwelir y bydd pob trafodaeth llyfr gwaith yn cymryd rhwng 30 a 60 munud. Dylai'r sgyrsiau ganolbwyntio ar y canlynol:

- elfennau'r dysgu a aeth yn dda
- elfennau'r dysgu a oedd yn heriol
- sut mae’r unigolyn rydych yn ei fentora wedi newid elfennau o'i ymarfer o bosibl o ganlyniad i'r dysgu
- sut mae’r unigolyn rydych yn ei fentora wedi newid yr ymarfer yn ei leoliad o bosibl o ganlyniad i'r dysgu
- unrhyw gynlluniau sydd gan yr unigolyn rydych yn ei fentora i newid ei ymarfer neu'r ymarfer yn ei leoliad yn y dyfodol.

Wrth drafod y pwyntiau uchod gyda'r unigolyn rydych yn ei fentora, gallech wneud y canlynol:

- cadarnhau ei sefyllfa ar hyn o bryd a myfyrio ar ei gynnydd hyd yma
- rhoi cymorth iddo drafod ei syniadau a'i ddewisiadau
- cynnig arweiniad
- gwneud awgrymiadau
- gofyn cwestiynau i'w helpu i greu cynllun i ddatblygu'r syniadau.

Ar ôl i chi a'r unigolyn rydych yn ei fentora gytuno bod y deilliannau dysgu ar gyfer pennod wedi'u bodloni, gellir cofnodi bod y llyfr gwaith wedi'i gwblhau. Cyn cytuno bod y llyfr gwaith ‘wedi'i gwblhau’, gallwch drafod sut y gallai'r unigolyn rydych yn ei fentora ymhelaethu ar ei fyfyrdodau beirniadol yn y llyfrau gwaith, er enghraifft. Mae gweithio mewn ffordd gydweithredol gyda'r unigolyn rydych yn ei fentora, a rhannu adborth adeiladol gydag ef, yn rhan bwysig o'r broses. Gall y mentor ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau ac adnoddau i herio a chefnogi'r unigolyn y mae'n ei fentora.

Efallai y byddwch chi a'r unigolyn rydych yn ei fentora yn cytuno y byddai'n fuddiol iddo ailedrych ar rai cwestiynau. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n cytuno y dylid edrych ar rai meysydd eto ar ôl i'r unigolyn rydych yn ei fentora gael cyfle i roi rhywfaint o'r dysgu ar waith, neu ar ôl iddo gael cyfle i gwblhau rhywfaint o'r darllen pellach. Ni ddylid gweld hyn fel rhywbeth negyddol, ond yn hytrach fel cyfle i chi a'r unigolyn rydych yn ei fentora gydweithio er mwyn datblygu sgiliau i gynorthwyo ei ymarfer.

Nid oes rhaid i'r unigolyn rydych yn ei fentora weithio drwy'r holl gwestiynau myfyriol yn ei lyfr gwaith os oes ganddo brofiad blaenorol perthnasol. Dylech chi a'r unigolyn rydych yn ei fentora drafod y dysgu blaenorol ac ystyried a yw'r ddau ohonoch yn teimlo ei fod yn bodloni'r deilliannau dysgu ar gyfer y cwestiwn.

Ar ôl i'r unigolyn rydych yn ei fentora gwblhau adran ddysgu (Craidd, Canolradd, Uwch), ac os yw'r ddau ohonoch yn cytuno bod y deilliannau dysgu wedi'u bodloni ar gyfer yr adran, gall y ddau ohonoch nodi yn y llyfr gwaith bod yr adran ddysgu wedi'i chwblhau. Yna bydd cydnabyddiaeth o gwblhau dysgu yn cael ei hanfon at yr unigolyn rydych yn ei fentora.

Bydd yr unigolyn rydych yn ei fentora yn gallu dewis a yw'n dymuno mapio ei ddysgu ADY yn erbyn y safonau proffesiynol. Os yw'n dewis gwneud hyn, byddwch yn gallu adolygu ei ymatebion a'i gynorthwyo gyda'r broses hunanfyfyrio beirniadol yn yr un modd ag yr ydych yn ei gynorthwyo i ymateb i'r cwestiynau.

## Y Cod Moeseg Byd-eang ar gyfer Hyfforddwyr, Mentoriaid a Goruchwylwyr

Mae'r Cod hwn yn pennu'r disgwyliad ar gyfer arfer gorau wrth hyfforddi, mentora a goruchwylio ac yn hyrwyddo datblygiad rhagoriaeth broffesiynol. Ei ddiben yw darparu canllawiau, atebolrwydd a safonau ymddygiad priodol. Mae'r Cod yn ganllaw ar gyfer unigolion nad ydynt o reidrwydd yn gweld eu hunain fel hyfforddwr neu fentor proffesiynol, ond sy'n defnyddio sgiliau hyfforddi neu fentora yn eu gwaith.

Mae angen sicrhau bod mentora yn cael ei ystyried yn bartneriaeth gyfartal sy'n llawn parch ac ymddiriedaeth rhwng y mentor a'r unigolyn sy'n cael ei fentora, heb unrhyw ymyrraeth feirniadol gan y mentor. Mae gan fentor gyfrifoldeb i gynnig arweiniad a chymorth mewn ffordd deg a moesegol heb ragfarn.

Gallwch weld y Cod yn Y Cod Moeseg Byd-eang ar gyfer Hyfforddwyr, Mentoriaid a Goruchwylwyr (Saesneg yn unig).

## Camau cyntaf ar gyfer mentoriaid

Nawr bod gennych chi ddealltwriaeth o'r broses fentora ar gyfer y LlDPC ADY, os ydych yn teimlo y gallech gefnogi dysgu ADY cydweithiwr mewn rôl fentora, dyma'r camau ymarferol cyntaf.

- Trafod y mater gyda'ch pennaeth neu'ch rheolwr.
- Cadarnhau gyda'ch cydweithiwr y byddech yn hoffi ei fentora yn ystod y LlDPC ADY.
- Darparu'r wybodaeth isod i'r unigolyn rydych chi'n ei fentora. Defnyddir y wybodaeth hon fel bod modd i chi weld llyfr gwaith yr unigolyn rydych yn ei fentora yn y CDP:

  - enw llawn
  - cyfeirnod athro neu rif Yswiriant Gwladol
  - dyddiad geni
  - cyfeiriad e-bost.

- Dilyn y cyfarwyddiadau a anfonir drwy e-bost atoch gan CGA i gael mynediad at y llyfrau gwaith.